

amserbeibl

Storiau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed _____ Dyddiad geni _____

Enw _____

Cyfeiriad _____

Enw Arweinydd y Dosbarth _____



Lliwiwch y lluniau yn y storiâu hyn o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th



DARLLENWCH
Daniel 1: 1-21

*Mae'r stori
yma'n sôn am:*
**Plesio Duw trwy
beidio â gwneud
pethau drwg.**

Stori 1 Daniel – Y Wlad Ddieithr

Roedd Daniel a'i dri ffrind, Hananeia, Misael ac Asareia, yn garcharorion ym Mabilon. Cawson nhw'u trin yn dda gan y Brenin Nebuchadnesar. Cawson nhw fynd i ysgol arbennig i gael eu dysgu. Yno, fe ddysgon nhw iaith newydd. Cawson nhw enwau newydd. Roedd disgwyl iddyn nhw fwyta bwyd arbennig y brenin.



Pwy oedd brenin Babilon?

N _ _ _ u ch _ _ _ n _ _ _ _ r

Er ei fod yn bell o gartref, penderfynodd Daniel fyw yn dda a pheidio â gwneud pethau drwg. Roedd Daniel eisiau plesio Duw.

Doedd Daniel ddim eisiau bwyta bwyd y brenin gan ei fod wedi cael ei gynnig i dduwiau ffug. Yn lle hynny, am ddeg diwrnod, roedd yn bwyta dim ond llysiau ac yn yfed dim ond dŵr i weld a fyddai'n edrych yn wahanol i'r rhai oedd yn bwyta bwyd y brenin. Ar ddiwedd y deg diwrnod, roedd yn edrych yn well o lawer na nhw!


Roedd Duw yn falch bod Daniel a'i ffrindiau yn dal i'w addoli. Roedden nhw ddeg gwaith yn fwy doeth na'r bobl eraill.



DARLLENWCH
Daniel 2: 48,49
a 3: 1-30

Mae'r stori
yma'n sôn am
Ffrindiau Daniel
yn gwrthod
gwneud
rhywbeth drwg

Stori 2 Delw Nebuchadnesar



Un diwrnod, gwnaeth y Brenin Nebuchadnesar ddelw fawr aur. Roedd rhaid i'r bobl bwysig, yn cynnwys Sadrach, Mesach ac Abednego ddod i seremoni arbennig. (Dyma'r enwau newydd a gafodd ffrindiau Daniel.)

Tynnwch linell o dan y gair sy'n dweud o beth gafodd y ddelw ei gwneud.

cerrig arian aur pren

Pan fyddai'r band yn dechrau chwarae miwsig, roedd rhaid i



bawb blygu ac addoli'r ddelw. Os na fyddent yn gwneud hynny, byddent yn cael eu taflu i'r tân mawr.

Roedd ffrindiau Daniel yn gwybod nad oedden nhw i fod i addoli delwau. Felly, pan oedd pawb arall yn plygu, roedden nhw'n sefyll yn syth! Pan glywodd y brenin, roedd yn grac iawn a dywedodd ei bod yn rhaid iddyn nhw addoli'r ddelw neu gael eu taflu i'r tân.

Atebodd y tri dyn a dweud:

“Bydd Duw yn gallu'n hachub ni”

Lliwiwch y geiriau.

Cawson nhw eu taflu i'r tân. Ar ôl i ffrindiau Daniel gael eu taflu i'r tân, edrychodd y brenin i mewn i'r tân. Cafodd syndod! Roedd yn gweld pedwar dyn yn cerdded yn y tân heb niwed! Roedd Duw gyda'r tri ffrind yn edrych ar eu hól. Pan ddaethon nhw allan, doedd dim hyd yn oed aroglau mwg ar eu dillad!

Mae Duw bob amser yn bendithio pobl sy'n ufudd iddo ac yn ei drystio!



DARLLENWCH
Daniel 6: 1-16

Mae'r stori
yma'n sôn am:
**Daniel yn ddyn da
ac yn gweddïo ar
Dduw**

Stori 3 Daniel – Y Ffenestri Agored

Gweithiodd Daniel yn dda i'r brenin newydd ac roedd y brenin eisïau rhoi job bwysig iawn iddo. Roedd rhai pobl yn genfigennus. Roedden nhw'n chwilio am fai yn Daniel ond roedden nhw'n methu achos roedd yn gwneud ei waith yn onest ac yn ofalus!

Pwy oedd y brenin newydd?

D _ _ _ _ _

Os ydyn ni, fel Daniel, yn caru Duw, dylen ni geisio'i blesio hefyd trwy wneud ein gorau a bod yn onest.

Roedd y dynion drwg yn gwybod fod Daniel yn gweddïo ar Dduw yn aml. Penderfynon nhw osod trap. Perswadion nhw'r brenin i wneud cyfraith newydd i ddweud mai dim ond ar y brenin roedd hawl gan bobl weddïo am 30 diwrnod.

Roedd Daniel yn credu y byddai Duw yn gofalu amdano. Roedd e'n credu bod gweddïo ar Dduw yn bwysig a doedd e ddim eisïau stopio!

Dair gwaith y dydd, roedd Daniel yn mynd i'w ystafell ac yn penlinio o flaen y ffenestri agored i weddïo ar Dduw yn y Nefoedd.

Gwelodd y dynion drwg Daniel yn gweddïo a mynd i ddweud wrth y brenin. Ceisiodd y brenin feddwl am ffordd i achub Daniel ond roedd yn methu gan nad oedd yn bosib newid cyfraith y wlad. Byddai'n rhaid taflu Daniel i



ffau'r llewod!

Lliwch y geiriau.



DARLLENWCH
Daniel 6: 17-28

Mae'r stori
yma'n sôn am
Trystio Duw
bob amser

Stori 4 Daniel - Yn ffau'r llewod

Cyn i Daniel gael ei roi yn ffau'r llewod, dywedodd y brenin wrtho, "Gobeithio y gwneith Duw dy achub." Yna, aeth y brenin yn ôl i'r palas. Gwrthododd fwyta ac roedd yn methu cysgu. Yn gynnar iawn y bore wedyn, brysiodd y brenin at ffau'r llewod. Galwodd ar Daniel i ofyn a oedd ei Dduw wedi'i achub oddi wrth y llewod.

Atebodd Daniel fod ei Dduw wedi anfon angel i gau cegau'r llewod fel na fyddent yn gwneud niwed iddo. Dywedodd wrth y brenin bod Duw wedi gwneud hynny gan iddo fod yn dda.


Rhowch gylch o gwmpas y gair sy'n dweud pwy achubodd Daniel.

Dareius
Y dynion pwysig
Duw



Roedd y brenin yn falch iawn o weld Daniel. Yna cafodd y dynion drwg eu taflu i ffau'r llewod. Cawson nhw eu lladd ar unwaith.

Cofiwch, bydd Duw yn ein hachub ni os credwn ni fod Iesu wedi marw droson ni ar y groes.



Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services, P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygydd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynnyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o www.amserbeibl.org

Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwillog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120